Annwyl……

Bob blwyddyn gofynnwn i bawb sydd wedi cwblhau cwrs yma yn ddiweddar gymryd rhan mewn arolwg i ddarganfod beth sy'n digwydd iddynt ar ôl iddynt adael *y brifysgol/coleg*.

Roedd gennym ddiddordeb mewn unrhyw waith a/neu astudiaeth bellach roeddech yn ei wneud ar 10 Ionawr 2018. Nid ydym eto wedi clywed gennych chi.

Mae holiadur arall yn amgaeëdig. Ni ddylai gymryd ond ychydig funudau i'w gwblhau - i'r mwyafrif o'r cwestiynau, dim ond rhoi tic mewn blwch sydd ei angen i ateb. Gallwch ei ddychwelyd i ni *yn yr amlen/gan ddefnyddio'r label* a ddarperir ac ni fydd angen stamp.

Gallwch hefyd gwblhau'r holiadur ar-lein unrhyw bryd o nawr tan 5 Mawrth yn…….

Cofiwch mai 10 Ionawr yw'r dyddiad sydd o ddiddordeb i ni er mwyn i ni allu cymharu gwybodaeth pawb.

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r holiadur, neu os hoffech gael y ffurflen mewn fformat arall, wnewch chi gysylltu â ni yn……

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am sut mae'r arolwg yn gweithio a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a ddarparwch *isod/ar y dudalen sydd ynghlwm/ar y cefn……*

Er eich bod yn awr wedi cwblhau eich cwrs, mae'r *gwasanaethau gyrfaoedd* yn dal ar gael i'ch helpu gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gyrfa. Os dymunwch gael unrhyw help gyda'ch cynlluniau gyrfa, cysylltwch â ni yn……

Yn gywir……

**Ynghylch yr arolwg**

Mae'r arolwg rydym yn gofyn i chi gymryd rhan ynddo yn arolwg cenedlaethol o bawb sydd wedi cymhwyso yn ddiweddar mewn unrhyw brifysgol neu goleg Addysg Uwch (AU) yn y DU. Bydd yr wybodaeth a rowch hefyd yn ddefnyddiol iawn i ni yn y *brifysgol/coleg* i gynghori ein myfyrwyr presennol am y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt. O blith y rheiny a enillodd gymwysterau ar draws y DU yn 2015/16, ymatebodd 78% i'r arolwg. Gellir gweld rhagor o ganlyniadau yn https://www.hesa.ac.uk/news/29-06-2017/sfr245-destinations-of-leavers.
Os na fyddwn yn clywed gennych yn fuan byddwn yn cysylltu â chi eto, dros y ffôn, felly rhowch wybod i ni os byddwch yn newid cyfeiriad neu rif ffôn, os gwelwch yn dda. Os na allwn gysylltu â chi o gwbl, efallai y byddwn yn ceisio cael gwybodaeth am yr hyn roeddech yn ei wneud gan rywun arall, naill ai yn y *brifysgol/coleg* neu rywun y gallwn gysylltu ag ef/hi drwy ddefnyddio'r wybodaeth gysylltu rydych chi wedi'i rhoi i ni yn flaenorol. Os nad ydych eisiau i ni wneud hyn, neu os nad ydych eisiau rhoi unrhyw wybodaeth i ni, wnewch chi ddweud wrthym os gwelwch yn dda. Isod mae'r manylion am yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth ar ôl ei hanfon atom.

**Beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth**

<Byddwch cystal â rhoi hysbysiad casglu eich sefydliad eich hun yma, ac yna dilynwch hwn gyda
chyswllt i hysbysiad casglu'r AYAU fel y nodir isod>
Byddwn ni'n anfon gwybodaeth o'r arolwg hwn i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU).
Disgrifir y defnydd y bydd yr AYAU yn ei wneud o'ch ymatebion i'r arolwg yn fanwl yn y fan hyn https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices/dlhe-c16018.